

Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019:

Dyddiad Cau Gosod Microsglodyn

Cwestiynau Cyffredin

Nid wyf wedi bod yn berchen ar geffyl, merlyn nac asyn erioed, felly pam wyf i wedi derbyn llythyr?

Mae eich cyfeiriad wedi, ar un adeg, ei gofrestru gyda'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog. Roedd y deiliad blaenorol yn geidwaid cofrestredig. Os ydych am dynnu eich cyfeiriad oddi ar y gronfa ddata, ewch i info@equineregister.co.uk

Nid oes gennyf geffyl, merlyn nac asyn / maent wedi marw, sut mae diweddarau fy manylion?

Cysylltwch â'r Gronfa Ddata Ceffylau Ganolog info@equineregister.co.uk i ddiweddarau eich manylion. Efallai y bydd angen ichi sicrhau bod y manylion pasbort hefyd yn gywir drwy gysylltu â'ch Corff Cyhoeddi Pasbortau Lleol.

Wrth bwy ddylem ddweud fod fy ngheffyl, merlyn neu asyn wedi ei werthu / newid perchennog?

Dylai'r perchennog **newydd** gofrestru eu manylion gyda'r Corff Cyhoeddi Pasbortau wedi prynu'r anifail. Er mwyn cadarnhau bod hyn wedi digwydd cewch gysylltu â'ch Corff Cyhoeddi Pasbortau.

Mae gan fy ngheffyl, merlyn neu asyn microsglodyn a phasbort eisoes, oes angen imi wneud rhywbeth?

Gwnewch yn siŵr bod manylion y microsglodyn wedi eu cofrestru. Cewch ddefnyddio'r Gwiriwr Microsglodion Ceffylau Cenedlaethol i ddiweddarau eich manylion. Efallai y bydd angen ichi sicrhau hefyd bod manylion y microsglodyn ar y pasbort drwy gysylltu gyda'ch Corff Cyhoeddi Pasbortau Lleol.

Nid oes gennyf geffylau, merlod nac asynod ar hyn o bryd ond byddaf yn prynu mwy yn y dyfodol. A oes angen imi wneud rhywbeth nawr?

Darllenwch Ganllawiau Ceidwaid Ceffylau diweddaraf 2020 ar [wefan Llywodraeth Cymru](#)

Mae fy anifeiliaid yn hen / ddim yn gweithio, a ydynt angen microsglodyn?

Ydynt, mae'n ofyniad cyfreithiol i bob ceffyl/merlen gael gosod microsglodyn erbyn 12 Chwefror 2021, waeth beth yw eu hoedran.

Mae fy ngheffyl, merlen neu asyn yn wyllt / anodd ei ddal, beth ddyliwn i ei wneud?

Efallai y bydd modd i'ch milfeddyg roi cyngor ymarferol i helpu ichi drefnu i osod microsglodyn yn eich anifail.

Mae gan fy merlyn neu asyn rewnod, a oes angen microsglodyn hefyd?

Oes, bydd angen microsglodyn erbyn 12 Chwefror 2021.

Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn gosod microsglodyn ar fy anifail?

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl, asyn a merlen gael gosod microsglodyn, os nad ydych yn gwneud hynny mae perygl y cewch eich erlyn gan yr awdurdod lleol.

A yw am ddim i osod meicrosglodyn?

Nac ydyw, bydd angen ichi gysylltu â'ch milfeddyg i drefnu y microsglodyn a byddant yn cadarnhau y pris.

Beth ddyliwn i ei wneud gyda fy mhasbort?

Wedi gosod microsglodyn cysylltwch â'ch Swyddfa Cyhoeddi Pasbortau fydd yn dweud wrthych beth i'w wneud. Byddant naill ai'n gofyn ichi ddychwelyd y pasbort i ychwanegu rhif y pasbort neu byddant yn gofyn am rif y microsglodyn ac yn diweddarau y cofnodion eu hunain.